

Y Gymdeithas

Cynhelir ail noson tymor Cymdeithas Undebol Deiniolen yn Nhy Elidir, nos yfory, nos Lun, Hydref 22. Ceir sgwrs gan ein gŵr gwadd, Arwel Jones (Hogia'r Wyddfa) ar y testun, 'Teithio tu ôl i'r gân'. Croeso i aelodau hen a newydd.

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon yng Nghapel Salem, Caernarfon am 7.00 o'r gloch nos Fercher, Hydref 24. Ceir cyflwyniad i Apêl Madagasgar Undeb yr Annibynwyr gan y Parchg Mererid Mair Williams. Byddwn hefyd yn diolch i'r Parchg Ddr Geraint Tudur am ei wasanaeth fel Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb am 12 mlynedd.

Cynllun Efe

Bydd Capel Coch yn cefnogi gwaith Efe dros y flwyddyn nesaf. Gall yr aelodau roi eu cyfraniad mewn amlen, a'i anfon at Drysorydd Capel Coch, Mr Colin Jones.

Nid aelodau Capel Coch yn unig sy'n medru cefnogi gwaith Cynllun Efe. Os oes unrhyw un arall o eglwysy'r Ofalaeth yn dymuno cyfrannu at y gwaith, rhwch eich arian mewn amlen i'r Gweinidog neu i un o swyddogion eich eglwys os gwelwch yn dda. Mae modd cyfrannu unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn.

Y mis nesaf - Deiniolen

Hydref 28

5.00 p.m. - Y Parchg Huw Pritchard

Tachwedd 4

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Tachwedd 11

5.00 p.m. - Mr Robert Morris

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Lun, Hydref 22: Y Gymdeithas Undebol yn Nhy Elidir am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 28: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch yn Ebeneser gan y Parchg Huw Pritchard.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Wener, Hydref 26: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 28: Gwasanaethir am yn yr Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd hon yn Oedfa Fedydd.

CARMEL

Dydd Llun, Hydref 22: Cynhelir y Te Bach am 2.30 o'r gloch, a bydd Pwyllgor yr Adeiladau yn y festri am 7.00 o'r gloch.

Nos Wener, Hydref 26: Dwylo Prysus am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 28: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Hydref 28: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

REHOBOTH

Dydd Sul, Hydref 28: Nid oes oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Hydref 28

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
(a fydd hefyd yn Oedfa Fedydd)

Tachwedd 4

10.00 a.m. - Mrs Nerys Griffith

Tachwedd 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Gofalaeth Fro'r
Llechen Las

Rhif 771
21 Hydref, 2018
Gronyn

Yli heinus, Uli Hoeness



Gwerthodd clwb pêl droed Bayern Munich Juan Bernat i glwb Paris Saint-Germain am £13miliwn yn ystod yr haf. Ddydd Gwener, eglurodd Llywydd y clwb o'r Almaen, Uli Hoeness, iddyn nhw wneud hynny wedi i'r chwaraewr gael gêm 'drybeilig o wael' yn erbyn Sevilla yng Nghynghrair Pencampwyr Ewrop y tymor diwethaf. 'Yn y gêm honno', meddai Hoeness, 'ei fai o yn unig oedd i ni bron â cholli. Y diwrnod hwnnw, mi benderfynwyd ei werthu am i ni o'i herwydd bron â cholli pob gobaith am lwyddiant yng Nghynghrair y Pencampwyr.' Bernat druan: debyg ei fod yn falch iddo adael Bayern.

Rhyfedd oedd clywed Hoeness yn pardduo Bernat ddydd Gwener gan fod Prif Weithredwr Bayern, Karl-Heinz Rummenigge, yn yr un gynhadledd i'r wasg, wedi bygwth cyfraith ar ohebwyd chwaraeon yr Almaen sydd wedi meiddio beirniadu chwaraewyr ei dim ers dechrau'r tymor pêl droed newydd. Yn anarferol ac annisgwyl, mae Bayern wedi dechrau'r tymor yn wael iawn ac wedi dod o'r herwydd dan lach y Wasg. Ond mae prif swyddogion y clwb wedi cael llond bol ar eiriau 'difriol a dirmygus' y gohebwyr sydd yn eu barn hwy yn tramgwyddo yn erbyn cyfansoddiad neu 'Gyfraith Sylfaenol' yr Almaen trwy ymosod ar urddas dynol y peldroedwyr.

Diddorol fydd gwybod a fydd y clwb yn mynd i gyfraith ai peidio. Diddorol hefyd fyddai gwybod sut y byddai'r llysoedd yn ymateb i'r ymdrech i erlyn

gohebwyr am fynegi barn onest am safon chwarae diweddar tîm Bayern. Nid dyna sydd o ddi-ddordeb i mi ar hyn o bryd fodd bynnag ond rhagrith y clwb, sydd ar y naill law yn cyhuddo'r Wasg o amharchu ei chwaraewyr ac ar y llaw arall yn bwrw sen yn gyhoeddus a digywilydd ar un o'i gynchwaraewyr.

Nid peth newydd yw'r rhagrith hwn, ac nid yw wedi ei gyfyngu i bwysigion cyfoethog byd pêl droed proffesiynol. Mae'r duedd i bobl feirniadu eraill am yr union feiau y maent hwy eu hunain yn euog ohonynt yn wendid cyfarwydd heddiw, fel yn nyddiau Iesu Grist ac ym mhob oes. Y sylweddoliad hwn a wnaeth i Iesu ddweud yn y Bregeth ar y Mynydd; 'Peidiwch â barnu, rhag ichwi gael eich barnu; oherwydd fel y byddwch chwi'n barnu a cwch chwithau eich barnu, ac â'r mesur a rowch y rhoir i chwithau. Pam yr wyt yn edrych ar y brycheuyn sydd yn llygad dy gyfaill, a thithau heb sylwi ar y trawst sydd yn dy lygad dy hun?' (Mathew 7:1-3).

Uli Hoeness, yli heinus dy eiriau. Ie, yli mor afiach yw beirniadu pobl eraill a thithau'n euog o'r un bai. Sut elli di feirniadu'r gohebwyr am ladd ar eich chwaraewyr chi a thithau mor barod i wneud yr un peth i Juan Bernat? Yli mor sâl wyt ti a ninnau pan anghofiwn y Rheol Euraidd a roddwyd i ni gan Iesu; 'Fel y dymunwch i eraill wneud i chwi, gwnewch chwithau yr un fath iddynt hwy' (Luc 6:31).

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnysaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Huw Pritchard. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr oedfa hon yn Nhy Elidir.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Bydd oedfa am 5.00 o'r gloch.

Bydd Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Euros Wyn Jones.

Ni fydd oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Diolchwn eto yn nhyrnor y Diolchgarwch am gynhafiaeth hael Duw.

"Dduw Dad, i Ti y diolchwn am bopeth da a dderbyniwn ac a fwynhawn bob dydd. Gwna ni beunydd yn barod i'th foli am dy holl fendithion."

Balm o Salm



'Diolchwch i'r ARGLWYDD.
Galwch ar ei enw, **BYW Y BEIBL**
gwnewch yn hysbys ei
weithredoedd ymysg y bobloedd.
Canwch iddo, moliannwch ef, dywed-
wch am ei holl ryfeddodau. Gorfoledd-
wch yn ei enw sanctaidd; llawenhaed
calon y rhai sy'n ceisio'r ARGLWYDD.
Ceisiwch yr ARGLWYDD a'i nerth, ceis-
iwch ei wyneb bob amser. Cofiwch y
rhyfeddodau a wnaeth, ei wyrthiau a'r
barnedigaethau a gyhoeddodd, chwi
ddisgynyddion Abraham, ei was, dis-
gynyddion Jacob, ei etholedig' (Salm
105:1-6).

Dewis cartref newydd

Fel y dywedwyd yr wythnos ddiwethaf, cafodd adeiladau Ebeneser eu gwerthu yn yr ocsiwn yn Gaerwen, a bydd angen i ni fel dwy eglwys yn Neiniolen benderfynu lle byddwn yn cynnal ein hoedfaon wedi i'r gwerthiant gael ei gwblhau ym mis Tachwedd gobeithio.

Er mwyn ein helpu i benderfynu, bydd ein hoedfa heno yn Nhy Elidir. Bydd gofyn i ni benderfynu ai yno ynteu yn Eglwys Llandinorwig yr ydym am gynnal ein hoedfaon.

**Cyfle olaf i roi eich enw –
erbyn heno
i'r Gweinidog**

Cwrs Ieuencid

Yng Ngholeg y Bala

Nos Wener – Dydd Sul
Tachwedd 2-4

Cynllun Efe Oedfa Gomisiynu

Cynhaliwyd Oedfa Comisiynu Susan Williams yn Weithiwr Plant, Ieuencid a Theuluoedd Cynllun Efe, Caersalem Caernarfon a Scripture Union Cymru yng Nghanolfan y Capel, Caethro nos Iau, Hydref 18.

Diolch yn fawr i bawb a ddaeth yno i ddatlu efo ni, ac i gyflwyno Susan a'r gwaith i ofal yr Arglwydd. Roedd yn braf bod yno, a chafwyd oedfa fendithiol. Y Parchg Marcus Robinson oedd yn llywyddu ac yn estyn croeso i bawb i'r oedfa cyn gweddio am fendith Duw arni.

Roedd yr addoliad yng ngofal Sian, Lowri ac Arwel o eglwys Caersalem.

Cyflwynais i adroddiad am waith Efe a'r hyn a arweiniodd at benodi Susan i'w swydd newydd. Diolchwch i Catrin Hampton am ei gwasanaeth o Fedi 2007 hyd ddiwedd Gorffennaf eleni. Roedd Catrin wedi methu â dod i'r oedfa, ond dymunwyd yn dda iddi hi a Corey yn eu swyddi newydd yn Sir Gaerfyrddin. Braff oedd cael croesawu Andrew Settatree i'r cyfarfod a'i longyfarch ar ei ddyweddiad yn ddiweddar â Heather Cartwright.

Darllenwyd rhannau o lythyrau Paul at Timotheus gan Menna Machreth.

Daeth Susan ymlaen wedyn i sôn am ei llawenydd o gael mentro i'w swydd newydd. Soniodd am ei phrofiad ei hunan yn dod i ffydd yn Iesu Grist yn ifanc, ac am ei hargyhoeddiad o werth cenhadu ymhlith plant a phobl ifanc. Soniodd am ei chysylltiad â gwaith Cynllun Efe o'r cychwyn cyntaf dros dair blynedd ar ddeg yn ôl, ac am y fendith a'r mwynhad a gafodd dros y blynyddoedd yng nghwmni ei chyd-weithwyr ar Bwyllgor Efe ac yn arbennig wrth iddi wasanaethu yn yr ysgolion ac yng nghapel i'w eglwysi'r fro. Edrychai ymlaen yn eiddgar

at wasanaethu yn ei swydd newydd, a diolchodd am bob croeso a chefnogaeth a dderbyniodd eisoes.

Roedd y weithred o gomisiynu Susan i'r gwaith yng ngofal Marcus Robinson, ac ymatebodd Susan yn gadarnhaol i'r cwestiynau a ofynnodd iddi fel rhan o'r ddefod. Offrymwyd gweddi dros Susan a'r gwaith gan gynrychiolydd Scripture Union, Helen Franklin.

Yn ei neges cyn yr emyn olaf, soniodd y Parchg Rhys Llwyd am Elias yn herio proffwydi Baal ar Fynydd Carmel, a chawsom ni oedd yno ein herio i ddod oddi ar y ffens, ac i beidio â chlofffi rhwng dau feddwl ond i gofleidio a phlygu i'r gwir Dduw a'i datguddiodd ei hun yn Iesu Grist yn hytrach na chredu rhyw gymysgfa o grefydd a duwiau o'n gwneuthuriad ein hunain. Anogodd bawb ohonom i weddio dros Susan wrth iddi hithau annog pobl i geisio Duw. Boed i'r Ysbryd Glân ein tanio ni a'r gwaith.

Wedi'r oedfa, cafwyd cyfle i sgwrsio ac i fwynhau'r lluniaeth a baratowyd gan aelodau Capel Caethro. Diolch iddynt am eu croeso hael.

Diolch i bawb a gymerodd ran yn y gwasanaeth. Gweddiiwch dros Susan a thros bopeth y bydd yn ei wneud yn enw ei Gwarddwr yn ei swydd newydd.

Deiniolen Cefnogi'r Banc Bwyd

Heddiw, ar yr Wyl Ddiolchgarwch byddwn yn derbyn rhoddion yn yr oedfa yn Neiniolen at Fanc Bwyd Caernarfon a'r Cylch.

Mae'n gyfle i ni fel eglwysi gyfrannu at y gwaith mawr y mae'r Banc Bwyd a'r gwirfoddolwyr sy'n ei reoli yn ei wneud ar hyd y flwyddyn.